

PWYLLGOR CYNLLUNIO
2 HYDREF 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 2 Hydref 2019.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Mike Allport, Marion Bateman, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Adele Davies-Cooke, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Ian Dunbar a Dave Hughes

HEFYD YN BRESENNOL: Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:

Y Cynghorydd Dennis Hutchinson – ar gyfer Eitem 6.1 ar y Rhaglen (060160)

Y Cynghorydd Haydn Bateman – ar gyfer Eitemau 6.2 (058968), 6.3 (060131) a 6.5 (060270) ar y Rhaglen

Y Cynghorydd David Williams ar gyfer Eitem 6.6 (060319) ar y Rhaglen

Roedd y Cynghorwyr Cindy Hinds a Paul Johnson yn bresennol fel arsylwyr

HEFYD YN BRESENNOL:

Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

26. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar ôl datgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu ar eitem 6.1 ar y rhaglen (060160), dywedodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson na fyddai'n siarad a byddai'n gadael y cyfarfod cyn yr eitem honno. Eglurodd yr Uwch Gyfreithiwr bod cysylltiad y Cynghorydd Hutchinson o ganlyniad i dir yn ei feddiannaeth oedd ger safle'r cais a'i rôl fel Llywodraethwr ysgol fyddai'n elwa o gyfraniad ariannol addysg os byddai'r Pwyllgor yn rhoi caniatâd.

O ran eitem 6.3 (060131), datganodd y Cynghorydd Owen Thomas gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu oherwydd bod aelod o'i deulu wedi gwrthwynebu'r cais. Byddai'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem honno.

27. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

<http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MI d=4502&LLL=0>

28. COFNODION

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 4 Medi 2019 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai gwir a chywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

29. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio'r un o'r eitemau.

30. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

PENDERFYNWYD:

Cofnodi'r penderfyniadau a gyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio oedd ynghlwm fel atodiad.

31. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 12 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.15pm)

.....
Y Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwyllo drwy fynd i'n llyfrgell gweddarlledu: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 2 HYDREF 2019

EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE / CAIS	SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU	PENDERFYNIAD
060160	Cyngor Tref Bwcle	Cais amlinellol i ddymchwel 81 Drury Lane a chodi 66 o anheddau yn 81 Drury Lane, Bwcle.	Mr. Keig yn siarad yn erbyn y cais.	Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog.
058968	Cyngor Tref yr Wyddgrug	Cais Llawn – Datblygiad Preswyl o 20 fflat yn Park House, Parc Busnes Broncoed, Yr Wyddgrug.	Siaradodd y Cyngorydd H Bateman, fel Aelod Lleol o blaid y cais. Gofynnodd i gael ei hysbysu am y newid y cytunwyd i amod 5.	Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog, gyda chynllun tirlunio estynedig yn Amod 5 i leihau'r effaith ar breifatrwydd/amwynder.

EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE / CAIS	SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU	PENDERFYNIAD
060131	Cyngor Tref yr Wyddgrug	Diwygio Llain 36 – Darparu Ystafell Haul yn 2 Ffordd yr Hydref Yr Wyddgrug.	<p>Ni siaradodd y Cyngorydd Thomas ar yr eitem, wedi iddi ddatgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu, a gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth, gan ddychwelyd ar ôl i'r Pwyllgor benderfynu'r cais.</p> <p>Mrs. A Edwards yn siarad erbyn y cais.</p> <p>Siaradodd y Cyngorydd H Bateman, fel Aelod Lleol yn erbyn y cais.</p>	Bod yr eitem yn cael ei gohirio i ystyried dewisiadau amgen i leihau edrych drosodd.
059663	Cyngor Treffynnon	Cais Llawn - Atgyweirio ac ailwampio adeiladau hen ysbyty hanesyddol gwag (rhestredig), gyda thai/fflatiau newydd cysylltiedig i greu cyfanswm o 89 o anheddau yn yr hen Ysbyty Lluesty, Hen Ffordd Caer, Treffynnon.	Mr. G Prescott (asiant) yn cefnogi'r cais.	Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog.

EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE / CAIS	SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU	PENDERFYNIAD
060270	Cyngor Tref yr Wyddgrug	Cais Llawn – Codi Estyniad i Adeilad Diwydiannol Presennol (Dosbarth Defnydd B2), Ynghyd â Gwaith Tirlunio Cysylltiedig, Iard Gwasanaeth a Seilwaith Draenio yn Smurfit Kappa, Maes Gwern, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Yr Wyddgrug.	Mr. K Webster (asiant), o blaid y cais. Siaradodd y Cyngorydd H Bateman, fel Aelod Lleol o blaid y cais.	Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) i roi caniatâd cynllunio, yn ddarostyngedig i'r amodau yn yr adroddiad a'r amod ychwanegol ar gyfyngu lefelau sŵn a nodwyd yn y sylwadau hwyr.
060319	Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd	Cais Amlinellol ar gyfer Datblygiad Preswyl ar Dir i'r Dwyrain o Vounog Hill, Penyffordd.	Siaradodd y Cyngorydd D Williams, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais.	Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog.
059862	Cyngor Tref y Fflint	Cais Llawn - Gosod fferm solar 2MW ar y ddaear a'i gweithredu, ynghyd â seilwaith cysylltiedig gan gynnwys: storffeydd batri, is-orsaf, unedau gwrthdroi/trawsnewid, mesurau diogelwch a lôn fynediad yn Safle Tirlenwi y Fflint, Castle Park, Fflint.		Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.

EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE / CAIS	SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU	PENDERFYNIAD
APÊL			NODWYD	
058874		Apêl gan Ms N. Young yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer cymeradwyo manylion a gadwyd yn ôl drwy amod 17 (datganiad dull ar gyfer adfer to) a 20 (insiwleiddio arfaethedig) ynghlwm i ganiatâd cynllunio cyf: 057421 yn Fferm Pen y Cafn, Rhydymwyn – GWRTHODWYD.		
059124		Apêl gan Mr. S Lloyd yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i ddymchwel annedd presennol a chodi 3 thŷ tref a garej a mynedfa i gerbydau newydd yn Parkfield, Ffordd Llanasa, Gronant - CANIATAWYD		

EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE / CAIS	SIARADWYR TRYDYDD PARTI / CAM GWEITHREDU	PENDERFYNIAD
059047		Apêl gan Mr. I. Thomas yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer cais amlinellol i adeiladu byngalo ar wahân yn 10 Higher Common Road, Bwcle – GWRTHODWYD.	Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Peers, cytunodd swyddogion i roi copi o benderfyniad yr Arolygydd yn llawn i'r Pwyllgor	